

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Elwy Evans (Tanyfron) gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnos yn dilyn anffawd ddydd Sadwrn diwethaf. Anfonwn ein cofion hefyd at Aneurin (ein gweinidog) gafodd anffawd i'w gefn ddydd Gwener diwethaf. Dymunwn adferiad llwyr a buan i'r ddau wrth inni eu codi hwy a phawb sydd mewn angen gerbron Duw. Parhawn i gofio hefyd am Bob Davies (Llanfair) yn Ysbyty Llandudno a hyderwn ei fod yntau yn adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd.
- Yr ydym yn estyn ein dymuniadau gorau heddiw i Elliw ac Eryl Williams (Llansannan), a hynny ar achlysur genedigaeth mab, Ifan Glyn. Yr un yw'n dymuniadau i Eryl Evans a Rebecca (Llansannan) ar enedigaeth merch fach, chwaer i Megan. Gweddiwn dros y ddau deulu, ac ymunwn gyda hwy i roi diolch i Dduw am ei ddaioni yn eu hanes.

Llety, os gwelwch yn dda

Edrychwn ymlaen i gael cwmni Côr y Synod o Fizoram yn yr Ofalaeth dros y penwythnos, Gorffennaf 11eg-13eg. Mae'r côr yn cystadlu yn Eisteddfod Llangollen ar y dydd Gwener ac yna byddant yn treulio'r penwythnos hefo ni ym Mro Aled. Fe gofiwch i Aneurin ac Eilir Owen Griffiths dreulio amser yn eu cwmni yn Mizoram ym mis Ionawr eleni. Maen nhw'n bobl gyfeillgar a hwyliog a'u canu yn wefreiddiol yn ôl y sôn. Cewch ragor o fanylion am y trefniadau yr wythnos nesaf ond mae angen trefnu llety ar eu cyfer ar y nos Wener, nos Sadwrn a'r nos Sul. Bydd tua 30 ohonynt ac os oes modd i chi gynnig llety (gwely a brecwast) am naill ai un, dwy neu dair noson, a hynny ar gyfer un, dau neu fwy o bobl, byddem yn ddiolchgar dros ben. Mae Bet Jones (Cefn Meiriadog) yn garedig iawn wedi cytuno i gydlynu'r trefniadau lletya. Plis cysylltwch â hi (mor fuan ag y gallwch ar ôl dydd Mawrth) trwy ffonio (01745) 584349 neu anfon neges ebost i jones_beti@yahoo.co.uk er mwyn inni allu trefnu llety ar eu cyfer.

Sul Arbennig i'r Fro

Cynhelir Sul yr Ofalaeth eleni ar Orffennaf 13eg. Bydd **"i-Grist"**, sef oedfa'r bore, ar gyfer teuluoedd holl eglwysy'r Ofalaeth yn Llansannan am 10.30. Yn ystod y gwasanaeth, bydd cyfle i'r plant a'r oedolion i gyflwyno'r gwaith llafar a chawn hefyd gwmni a chyfle i gydaddoli a chlywed y Côr o Fizoram yn canu. Mae'n fwriad yn dilyn oedfa'r bore i fynd i'r cae chwarae i gael barbeciw, gemau, ac i gymdeithasu. Yna am 6.00, cynhelir **"Oedfa o Fawl"**, eto yn Llansannan gyda'r Côr o Fizoram yn cymryd rhan flaenllaw yn yr oedfa. Felly, cadwch y dyddiad yn rhydd – mae'n siŵr fod gwledd yn ein haros! Croeso cynnes i bawb.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Philemon 1-7 (BCND tud.238 / BCN: tud.219)

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 22^{ain} Mehefin 2014

Darlleniad y Dydd

Eseia 40:1-8

(BCND tud.654 / BCN: tud.597)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Croeso mawr i bawb ohonoch i'r oedfaon heddiw. Diolchwn am Sul arall i gael ceisio Duw gyda'n gilydd a chael clywed eto am ei ras rhyfeddol tuag atom yn Iesu Grist. Gweddiwn am fendith ar bob oedfa ym Mro Aled ac ar draws Cymru a'r byd, ond cofiwn hefyd am y rhai fyddai'n dymuno ymuno â phobl Dduw ond sydd ddim yn abl i fod mewn gwasanaeth – gweddiwn y bydd cariad Crist yn cael ei brofi ganddynt wrth i'r Ysbryd Glân ddod â Gair Duw yn fyw, a chynhesu calonnau'r rhai sy'n darllen neu'n gwranddo.

Gallaf ddychmygu bod nifer fawr o ddarllenwyr Llais Bro Aled yn anelu am y cae sgwâr pan mae rhaglen *Newsnight* yn dechrau am 10.30 y.h. ar BBC 2. Beth sy'n arbennig am y rhaglen yr wythnos hon yw'r ffaith bod ei chyflwynydd Jeremy Paxman wedi rhoi'r gorau i'w swydd ar ôl chwarter canrif. Hyd yn oed os nad oes gennych unrhyw ddiddordeb mewn newyddion na gwleidyddiaeth, dwi'n siŵr fod Jeremy Paxman yn wyneb ac yn llais cyfarwydd – y dyn sy'n gofyn y cwestiynau anodd i wleidyddion ac yn mynnu (yn eithaf digywilydd yn aml) cael ateb. Ef yw'r holwr sy'n enwog am ofyn yr un cwestiwn ddeuddeg gwaith i'r cyn Ysgrifennydd Cartref Michael Howard yn 1997!

Digon prin oedd cydymdeimlad Paxman tuag at y rhai yr oedd yn eu cyfweld ac ar brydiau gallai ymddangos yn gwbl ddirugaredd wyneb yn wyneb â gwleidyddion oedd yn edrych fel petaent wedi'u dal mewn magl.

Ond diolch i'r drefn, wrth i ni droi at ein darlleniad am y dydd ym mhroffwydoliaeth Eseia, mae'r darlun a gawn o'r Arglwydd yn gwbl wahanol. Er bod ein Duw yn Arglwydd sanctaidd a chyfiawn sy'n casáu pechod ac anghyfiawnder, gwelwn hefyd fod ganddo gysur a gobaith i'w gynnig i'w bobl.

Mae neges Duw yma yn un i bobl wedi llwyr ddigalonni ymhell oddi cartref – ond mae'n neges sydd i ddod â chysur i'r bobl, ac sydd i'w chyflwyno'n dyner i Jerwsalem. Neges arbennig fod cosb y bobl wedi'i thalu a bod gogoniant Duw ar gael ei amlygu i bawb.

Proffwydoliaeth i'n harwain yn y pen draw at Iesu Grist oedd y neges honno – neges o gysur i bawb sy'n ei chlywed ac yn dod at Iesu Grist mewn ffydd gan edifarhau. Yn Iesu, gwelwn ogoniant Duw yn cael ei amlygu, a sut y mae'n cosb ni am ein pechod wedi cael ei thalu'n llawn ar y Groes – *'Cafodd ei gosbi i wneud pethau'n iawn i ni; ac am iddo fe gael ei guro cawson ni ein hiacháu.'* (Eseia 53:5 beibl.net)

Beth am i ni, felly, dderbyn neges Duw o gysur trwy ddod at Iesu mewn mawl a diolchgarwch am ei gariad trosom, ac ymddiried heddiw ac am yr wythnos sy'n dod yn ngair Duw sy'n sefyll hyd byth. (Eseia 40:8)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00 gyda Rhodri yn pregethu.
- Mawrth • **Adnabod – Grŵp Celfyn** yn cyfarfod yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- Mercher • **Adnabod – Grŵp Elen** yn cyfarfod yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- Iau • **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener • **Barbeciw a gemau C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15. (Cyfarfod yn y Festri ond dewch â dillad addas i'r cae chwarae.)
- Sul nesaf • **Oedfa'r Fro ar Daith** – y tro hwn **yng Nghapel y Waen, Nantglyn** am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mercher Cynhelir cyfarfod i drefnu dathlu canmlwyddiant Capel Coffa Henry Rees am 7.30. Croeso cynnes i bob aelod. Yn dilyn, bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Adeiladau.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00, a bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn oedfa'r pnawn yn Saron.
- Sul nesaf Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00 (SYLWCH AR Y NEWID). Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00. Wedi'r oedfa, bydd yr aelodau'n mynd ar daith i Lanberis ar ôl stopio am ginio yn y Tŷ Golchi, Bangor. Enwau i Olwen Cottle (814849) erbyn nos Fawrth, os gwelwch yn dda. Bydd Oedfa Deuluol yn Groes am 10.00 ac yna bydd trip yr Ysgol Sul yn mynd i Sir Gaer.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith **yn Llanefydd** am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Miss Sioned Ll. Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.